**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Clefydau Egsotig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 7 Tachwedd 2018*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 20 Tachwedd 2018 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 19 Tachwedd 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 26 Tachwedd 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 8 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad yn cytuno â’r crynodeb o’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, ac â’u hamcan, fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru yn ei Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 9 Tachwedd 2018.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi anghysondeb yn un o'r cyfeiriadau yn y Datganiad Ysgrifenedig, ac mae am dynnu sylw’r Aelodau ato fel a ganlyn:

- Mae'r Datganiad yn cyfeirio at Benderfyniad gan y Comisiwn 2003/467/EC, ond nid yw'r Rheoliadau’n ymdrin ag ef.

O ran pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i’r Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU gynnwys y darpariaethau

datganoledig, efallai y bydd yr Aelodau am drafod yr ymresymu a gynigir yn y darnau isod sydd wedi’u dethol o’r Datganiad Ysgrifenedig:

"Mae rheoli clefydau egsotig yn swyddogaeth ddatganoledig.

Mae'r OS hwn, sy'n dilyn y weithdrefn negyddol, yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE, drwy fynd i'r afael â diffygion a methiannau'r gyfraith sy'n ymwneud â chlefydau hysbysadwy egsotig mewn da byw.

Ni fyddai cyfraith berthnasol yr UE yn gweithredu'n briodol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE heb iddi gael ei diwygio. Byddai hyn yn effeithio ar ein gallu i reoli achosion o glefydau.

Mae'r OS yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol gymwys yr UE a deddfwriaeth ddomestig. Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy’n mynd gydag ef, sy'n nodi effaith y diwygiad hwn i’w gweld yma.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol. Mae hyn yn sicrhau dull cydlynol lle y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn glir ar draws y DU. Gan nad oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro, mae'n briodol mai Llywodraeth y DU sy'n gwneud yr OS y tro hwn.
Bydd y diwygiadau yn sicrhau y bydd rheolau a gweithdrefnau, mewn perthynas â rheoli clefydau egsotig, yn dal i fod yn eu lle i reoli a dileu clefydau yn gynnar, yn effeithiol ac mewn modd cydgysylltiedig."